# Costau Hyfforddiant i Staff Cymorth

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

8 Gorffennaf 2014

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 5 Mehefin, pan wnaethoch ofyn,

*A oes modd i chi restru pob cwrs hyfforddiant a chwrs addysg a ddarparwyd ar gyfer aelodau o deuluoedd Aelodau'r Cynulliad sy'n cael eu cyflogi fel staff cymorth, y talwyd amdanynt gan y Cynulliad Cenedlaethol ers 2007. Rhowch fanylion gan gynnwys costau.*

Cyn 2011, talwyd costau hyfforddi a datblygu Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad o gyllideb staffio Aelodau'r Cynulliad. Ers 2011, mae gan Gomisiwn y Cynulliad gyllideb ganolog ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth, yn dilyn argymhelliad a wnaed gan Banel Adolygu Annibynnol yn 2009. Nod cyffredinol y rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus yw gwneud y mwyaf o gapasiti y Cynulliad a sicrhau y gall yr Aelodau ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Cymru.

Mae'r gyllideb DPP yn rhoi cyfleoedd i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ddatblygu'n broffesiynol, er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gefnogi Aelodau'r Cynulliad yn eu rolau, ac i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy.

Bydd achos busnes sy'n dangos pa mor berthnasol yw'r cais am Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus i'w rôl neu, pan fo'n briodol, sy'n dangos unrhyw fylchau o ran sgiliau yn swyddfa'r AC sy'n eu cyflogi, yn cyd-fynd â phob cais am hyfforddiant. Bydd Tîm Datblygiad Proffesiynol Parhaus Comisiwn y Cynulliad yn asesu pob achos busnes i benderfynu a fydd yn rhyddhau arian

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@cymru.gov.uk

ar gyfer yr hyfforddiant, ond ni chaiff pob cais am hyfforddiant a gaiff ei gyflwyno ei gymeradwyo.

Rhaid i ddarpar staff cymorth sydd yn aelodau o'r teulu gael eu recriwtio drwy gystadleuaeth agored a theg, a bydd yr Aelod Cynulliad dan sylw yn cael ei dynnu o'r broses benodi am gyhyd ag y bydd aelod o'i deulu yn ymgeisydd. Mae'r polisi recriwtio yn nodi:

> *Bydd penodi aelodau o deulu Aelod Cynulliad ond yn cael ei ganiatáu os na fydd yr Aelod yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol. Yn hytrach, bydd y broses hon yn cael ei chyflawni gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau.*
>
> *Os na fydd aelod o'r teulu yn cael ei gynnwys ar y rhestr fer neu os bydd yn penderfynu tynnu ei gais yn ôl, yr Aelod Cynulliad fydd yn gyfrifol am y broses recriwtio unwaith eto.*

Isod mae tabl sy'n dangos cyfanswm costau cyrsiau hyfforddi a chyrsiau addysg, fesul blwyddyn ariannol, a gynhaliwyd ar gyfer staff cymorth sydd yn aelodau o'r teulu. Mae pwyntiau pwysig i'w nodi am y data yn y tabl:

- Nid oes dim costau am gyrsiau mewnol neu gyrsiau a gynhelir gan y Cynulliad, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.
- Mae llawer o'r cyrsiau a nodir yn y tabl hefyd yn gyrsiau y manteisiwyd arnynt gan staff cymorth eraill, nad ydynt yn aelodau o'r teulu; nid yw'r costau hyfforddi hyn wedi'u cynnwys.
- Nid yw pob staff cymorth sydd yn aelodau o'r teulu yn cael eu cynnwys yn y tabl, oherwydd mae rhai nad ydynt wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sydd wedi arwain at gostau i'r Cynulliad.

| Blwyddyn ariannol | Hyfforddiant | Cost (£) |
|---|---|---|
| 2007-2008 | | |
| | Cyrsiau Addysg Bellach ac Addysg Uwch | 565.00 |
| | Yr iaith Gymraeg | 550.00 |
| 2008-09 | | |
| | Cyfathrebu GovNet | 405.38 |
| | Yr iaith Gymraeg | 420.00 |
| 2009-10 | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yr iaith Gymraeg | 224.00 |
| | Hanfodion ECDL | 215.50 |
| 2010-11 | | |
| | Yr iaith Gymraeg | 292.00 |
| 2011-12 | | |
| | Ysgrifennu'n Effeithiol | 214.28 |
| | Rheoli Unigolion Emosiynol | 143.47 |
| | Ymdrin â Phobl Anodd | 107.91 |
| | Sgiliau Pendantrwydd | 199.04 |
| | Yr iaith Gymraeg | 74.72 |
| | Darllen yn gyflym | 145.00 |
| | Ymdopi ag Ymddygiad Heriol | 108.98 |
| | Iaith Arwyddion Prydain | 680.00 |
| | Cyswllt â'r cyfryngau | 163.00 |
| 2012-13 | | |
| | Cyflwyniad i Hwyluso | 185.70 |
| | Yr iaith Gymraeg | 370.63 |
| | Credyd Cynhwysol | 102.50 |
| | Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl | 120.00 |
| | Hyder mewn Digwyddiadau Cyhoeddus | 72.20 |
| | Y cyfryngau cymdeithasol a democratiaeth | 33.33 |
| | Cyflwyniad i'r Cyfryngau Cymdeithasol | 83.33 |
| 2013-14 | | |
| | Credyd Cynhwysol | 64.73 |
| | Gwaith craffu deddfwriaethol | 51.42 |
| | Ysgrifennu areithiau | 133.33 |
| | Yr iaith Gymraeg | 135.00 |
| | Ymdopi ag Ymddygiad Heriol | 62.50 |
| | Craffu Ariannol | 107.14 |
| | Cyrsiau Addysg Bellach ac Addysg Uwch | 1414.00 |
| 2014-hyd heddiw | | |
| | Taliad Annibyniaeth Bersonol | 200.00 |
| | Cyfathrebu Hyderus | 179.00 |
| | Hyfforddiant Gweithiwr Achos - Darparu Cefnogaeth i Etholwyr | 175.00 |
| | Rheolwyr Swyddfa a Chynorthwywyr Personol | 1200.00 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | | **9198.09** |

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF